| | |
|---|---|
| Pwyllgor | Bwrdd y Cyngor |
| Dyddiad | 16-2-2010 |
| Teitl | **Cynllunio busnes 2010/11 – bidiau refeniw a chyfalaf** |
| Pwrpas | **Ystyried argymhellion ar gyllido'r bidiau refeniw a chyfalaf a dderbyniwyd** |
| Awdur | **Geraint George**<br>**Pennaeth Strategol a Gwella** |
| Arweinydd Portffolio | Arweinydd y Cyngor |

## 1. Cefndir

Pwrpas y papur hwn yw adrodd ar ganlyniad y broses o ddadansoddi a blaenoriaethu bidiau refeniw a chyfalaf fel rhan o'r broses allweddol o adnabod a chytuno blaenoriaethau a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2010/11.

Yn unol â'r fframwaith cynllunio busnes mae'r bidiau wedi eu hadnabod gan y gwasanaethau wrth iddynt ystyried eu cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 2010/11 – 2012/13.

Eto eleni, yn wyneb y sefyllfa ariannol ddychrynllyd o heriol, gwahoddwyd bidiau o dan y **categori anorfod** yn unig, sef gwariant anorfod i gadw gwasanaeth ar ei lefel bresennol neu ymateb i ofynion deddfwriaethol newydd sylweddol.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried bidiau a oedd yn cyd-fynd a'r diffiniad **anorfod** yn unig. Mae rhai gofynion mwy dewisol wedi eu crybwyll a bydd rhaid ystyried y rhain ar y cyd ag unrhyw ofynion newydd sydd yn codi o'r adolygiad olaf o Gynllun Tair blynedd bresennol y Cyngor. Gwneir darpariaeth yn y Strategaeth Ariannol ar gyfer hyn, a bydd y cynigion ar y defnydd o'r adnoddau hynny yn dod yn ôl i Fwrdd y Cyngor yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd.

Noder hefyd y bwriedir sicrhau cyfundrefn a fydd yn nodi'r buddion diswyliedig o'r bidiau a ganiateir, fel y gellir wedyn monitro cyrhaeddiad yr Adrannau wrth sicrhau bod y buddion yn deillio yn unol â'r bidiau.

## 2. Y Broses Blaenoriaethu

Amlinellir y prif gamau yn y broses ar gyfer blaenoriaethu'r bidiau:-

- asesiad agoriadol o'r holl fidiau a gyflwynwyd ar y cyd gan y Grŵp Arweinyddiaeth, er sicrhau mai dim ond bidiau anorfod oedd yn cael ystyriaeth.

- yr Adran Strategol a Gwella, yn seiliedig ar y manylion a gyflwynwyd a thrafodaethau pellach gyda'r gwasanaethau, wedi paratoi argymhellion ac adroddiad drafft o ran blaenoriaethu a chyllido'r bidiau

- y Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried papur yr Adran Strategol a Gwella a chytuno argymhellion

- Ymgynghori â'r Grwp Busnes.

- Bwrdd y Cyngor a'r Cyngor llawn i ystyried a mabwysiadu'r Strategaeth ariannol, y blaenoriaethau a ffynhonnell cyllido yn eu cyfarfodydd ar 16 Chwefror a 25 Chwefror.

O ran y bidiau cyfalaf, y Cynllun Rheoli Asedau fydd yn cyfeirio'r rhan helaeth o wariant i'r dyfodol. Mae'r cynllun hwnnw wrth gwrs eisoes wedi ei fabwysiadu.

Mae'r argymhellion yn ymwneud a bidiau oddi allan i'r Cynllun Rheoli Asedau wedi eu tywyllu yn yr atodiad.

## 3. Argymhellion.

### A. Bidiau Refeniw.

Derbyniwyd bidiau refeniw cyfwerth a chyfanswm o £6,711,761

Mae'r dogfennau canlynol ynghlwm:

(i) yr argymhellion parthed cyllido'r bidiau – **Atodiad A.**

I grynhoi, mae'r cyfansymiau fel a ganlyn: - Gweler Rhan 1 o Atodiad A

| | 2010/11 |
|---|---|
| **Parhaol** | £543,874 |
| **Unwaith ac am Byth** | £409,160 |

Noder hefyd yr argymhellion parthed trosglwyddiadau i'r gyllideb ar gyfer ariannu gwaith penodol yn deillio o grantiau yn y gorffennol, lle mae elfen o ddewis gan y Cyngor ynghylch y defnydd o'r arian – gweler Rhan 2 o Atodiad A

(ii) y rhestr o’r bidiau refeniw na argymhellir eu cyllido, ynghyd a’r rhesymau am hynny, gan gynnwys y bidiau sydd i’w hystyried ymhellach - **Atodiad B (Rhan 1 – i’w ystyried ymhellach, a Rhan 2, lle’r argymhellir peidio a chyllido)**

Mewn cyfarfod o Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol i ystyried yr argymhellion drafft, argymhellodd yr Arweinyddion y dylid caniatau Bid Rhif GCym 11 – Mannau Parcio i’r Anabl - £34,000, ac y dylid rhoi ystyriaeth fanwl i’r dulliau mwyaf effeithlon o brosesu’r ceisiadau a diwallu’r angen am y mannau parcio, er mwyn dileu’r rhestr aros.

**B. Bidiau Cyfalaf.**

Mae’r dogfennau canlynol ynghlwm:

(i) Rhestr o’r bidiau a dderbyniwyd, a’r argymhellion parthed cyllido’r bidiau, yn dilyn herio gan yr Adran Strategol a Gwella - **Atodiad C.**

Noder, yn wyneb y rhagolygon gwael mewn perthynas â gwariant cyfalaf, mai argymhellion am un flwyddyn yn unig a wnaed eleni.

Noder hefyd bod cyfanswm y bidiau a argymhellir yn uwch na’r swm a argymhellwyd yn wreiddiol yn y Cynllun Rheoli Asedion.

Mae’r argymhellion yn ymwneud a bidiau oddi allan i’r Cynllun Rheoli Asedau wedi eu tywyllu yn yr atodiad.

(ii) Rhestr o’r bidiau cyfalaf yr argymhellir peidio eu cyllido - **Atodiad Ch**

**4. <u>Argymhelliad</u>**

**Gofynnir i Fwrdd y Cyngor fabwysiadu’r agymhellion parthed cyllido’r bidiau refeniw a chyfalaf.**

A. **Barn yr Aelod Lleol**

Dim yn fater lleol

**Barn y Swyddogion Statudol:**

1. **Prif Weithredwr**

"Mae'r adroddiad sydd gerbron wedi bod yn destun gwaith a thrafod manwl cyn dod gerbron y Bwrdd, yn cynnwys cyfarfod gydag arweinyddion y grwpiau unigol – fe welir un argymhelliad penodol yn codi o'r trafodaethau hynny yng nghorff yr adroddiad. Wrth gwrs, bydd yr argymhellion wedi eu craffu gan y Prif Bwyllgor Craffu cyn iddynt ddod gerbron y Bwrdd a chyflwynir sylwadau'r pwyllgor hwnnw yn y cyfarfod."

2. **Swyddog Monitro**

**"**Dim sylwadau i'w hychwanegu o ran priodoldeb"

3. **Prif Swyddog Cyllid**

**"**Cadarnhaf fod cyfansymiau'r bidiau refeniw a chyfalaf a argymhellir yma (gan gynnwys y £34,000 yn rhan 3A o adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella) yn gyson efo'r strategaeth ariannol ar gyfer 2010/11 yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, a bod hwnnw yn sail i ddangosyddion y Côd Darbodus yn f'adroddiad canlynol.

Er gwybodaeth, mae cyfanswm y "bidiau" cyfalaf yn llawer llai na'r rhaglen gyfalaf llawn (gweler f'adroddiad ar yr adolygiad 3ydd chwarter o raglen gyfalaf 2009/10), sy'n cynnwys nifer o grantiau penodol sylweddol iawn a nifer o gynlluniau sy'n ymrwymiadau o flynyddoedd blaenorol.

Yn gyffredinol, rwy'n hyderus fod y bidiau (ynghyd â'r adolygiad cyllidebau yn rhan 5.5 – 5.13 o adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol) wedi'u blaenoriaethu yn rhesymegol ymhellach i ymarferiad sydd wedi mesur ac ystyried amrediad eang o anghenion cwsmeriaid a gwasanaethau.  Felly, rwy'n cefnogi'r argymhellion ar gyfer 2010/11."